**Sesiwn 1999-2000**

# PAPURAU BUSNES

## Rhan 2 – Adran H

## COFNOD O BLEIDLEISIAU A THRAFODION

## DYDD MAWRTH 22 MEHEFIN

**Dechreuodd y sesiwn am 2.00pm**

**2.00pm**

**Datganiadau'r Llywydd**

Gwnaeth y Llywydd ddatganiad am yr amser a neulltir ar gyfer cwestiynau'r Aelodau a'r angen i gadw cwestiynau'r Aelodau'n fyr.

**2.01pm**

**Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd**

Atebwyd y 5 cwestiwn cyntaf.

Tynnodd John Griffiths ei gwestiwn (rhif 6) yn ôl.

**2.23pm**

**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**

Gwnaeth y Trefnydd ddatganiad am Fusnes y Cynulliad am y tair wythnos nesaf.

Cytunwyd ar y datganiad.

**2.25pm**

**Datganiad Cyllid**

Gwnaeth yr Ysgrifennydd Cyllid ddatganiad am gynlluniau ariannol y Cynulliad a’r broses ymgynghori, yn fewnol ac yn allanol.

**2.49pm**

**Dadl ar Ddiwygio T’r Arglwyddi (Dirprwy Lywydd yn Cadeirio)**

Bod y Cynulliad yn croesawu sefydlu Comisiwn Brenhinol ar ddiwygio T’r Arglwyddi ac yn gobeithio y bydd y Comisiwn, wrth lunio ei gynigion, yn cydnabod angen rhoi cynrychiolaeth briodol i Gymru mewn Siambr ddiwygiedig ac y bydd yn ystyried cynrychiolaeth gan, neu i, Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynigiwyd gan y Prif Ysgrifennydd

**Mater o Drefn: John Marek**

Codwyd mater o drefn yngln â’r Aelodau’n cael gweld Rhybuddion o Gynigion.

Dywedodd y Dirprwy Lywydd wrth y Cynulliad bod y Pwyllgor Busnes wedi cytuno bod y Swyddfa Gyflwyno’n ebostio cynigion i reolwyr busnes y pleidiau ddiwedd y dydd ar ddydd Iau a dydd Gwener.

Bu pleidlais o gadarnhad ar y Cynnig.

Dyma’r pleidleisiau:

O blaid 31

Ymatal 13

Yn erbyn 8

Pasiwyd y cynnig

**4.41pm**

**Dadl Fer**

Effaith oedi cyhoeddi adroddiad y Comisiwn Monopolïau a Chydsoddiadau ar laeth a’r diwydiant cynnyrch llaeth yng Nghymru.

**Jocelyn Davies** (Dwyrain De Cymru) a gododd y mater.

**Daeth y sesiwn i ben am 5.34pm**

********************

**Bydd y Cynulliad yn cyfarfod yn llawn eto am 2.00pm**

**ddydd Mercher 23 Mehefin 1999**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad Cenedlaethol**